## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

**Cofnodion cyfarfod ychwanegol 7.00 pm**, **Dydd Llun, 1 Medi 2025**

**Yn bresennol:** Cyng. Einir Thomas – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, William Victor Owen, Evan Wyn Robertson, a Gareth Thomas.
**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – Clerc / SAC.

**1. Ymddiheuriadau:** Cyng. Gordon Owen a Sharon Parry.

**2. Datganiad o Ddiddordeb:**
Cyng. Gwilym O. Jones yn datgan ddiddordeb personol ym mhob mater oedd yn ymwneud â'r neuadd.

**3. Cais am Grant - Gymdeithas Elusennol Ynys Môn**

Cafwyd cadarnhad fod y cais am gyllid i uwchraddio'r system wresogi wedi bod yn llwyddiannus. Mynegwyd pryder mai dim ond dau ddyfynbris a gafwyd ond roedd yr Aelodau yn awyddus iawn i ddechrau'r gwaith cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod y neuadd yn cael ei gwresogi cyn misoedd y gaeaf. Roedd unrhyw oedi yn golygu na fyddai'r neuadd ar gael i'w defnyddio. Fodd bynnag, cytunwyd bod y Cyngor yn annhebygol o allu gwneud y gwaith yn sydyn pe baem yn chwilio am fwy o brisiau ac roedd plymwyr yn debygol o fod yn hynod brysur wrth i'r gaeaf agosáu. Roedd gan Mike Jones Roofing Ltd nifer o gontractwyr cysylltiedig yn gweithio gydag ef ac roedd y pris a roddwyd ganddo yn rhesymol. Penderfynwyd: cynnig y gwaith iddo ar yr amod y gallai ddechrau gwaith yn weddol gyflym.
Cytunwyd hefyd i drefnu i'r storfa / ystafell boeler gael ei chlirio a byddai'r clerc yn cysylltu â Gareth Griffiths (trydanwr) ynglŷn â gosod cyflenwad pŵer yno.

**4. Cronfa Gwella Hwb**

Dywedwyd fod hyd at £5000 ar gael drwy Medrwn Môn ar gyfer gwelliannau i'r neuadd. Cytunwyd gan nad oedd hi wedi'i pheintio ers peth amser i ofyn am gymorth ariannol i wneud hynna. Byddai'r clerc yn paratoi'r cais i'w gyflwyno erbyn 5 Medi 2025.

**5. Gronfa Gymuned Cynghrair Bro Llynnoedd**

Er i'r Cyngor lwyddo i sicrhau arian ar gyfer nifer o brosiectau yn ddiweddar, roedd biliau mawr i'w talu o hyd. Ar ôl peth drafodaeth, cytunwyd i ofyn am gymorth gan y Gynghrair i dalu ffi cysylltu Dŵr Cymru. Byddai'r clerc yn gofyn am ddyfynbris wedi'i ddiweddaru (y gwreiddiol oedd £1296.73 + TAW) ac yn paratoi'r cais erbyn y dyddiad cau ar 5 Medi.

**5. Materion Ariannol -** cytunwyd i dalu'r canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Scottish Power | £867.13 | Shaun Wharton | £200 |

**6. Cyfarfod Nesaf - 16 Medi 2025**

: